OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 533

# Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022

## RHAN 3

Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"mae i "cynorthwyydd gweithrediaeth" yr un ystyr ag a roddir i "assistant to the executive" ym mharagraff 3A o Atodlen 1 i Ddeddf 2000;".

(3) Yn rheoliad 3, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor safonau yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, nid yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o'r pwyllgor at ddibenion paragraffau (1) a (2)."

(4) Yn rheoliad 5, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor safonau yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, nid yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o'r pwyllgor at ddibenion paragraffau (1) a (2)."

(5) Yn rheoliad 9—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "gynnwys mwy nag un aelod gweithredol o'r awdurdod hwnnw." rhodder—

"gynnwys mwy nag un o'r rhai a ganlyn—

(a) aelod gweithrediaeth o'r awdurdod hwnnw (ond gweler paragraff (3)), neu

(b) cynorthwyydd i'w weithrediaeth.";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "gynnwys mwy nag un aelod gweithredol o bob un awdurdod lleol cyfansoddol." rhodder—

"gynnwys mwy nag un o'r rhai a ganlyn o bob un awdurdod lleol cyfansoddol—

(a) aelod gweithrediaeth (ond gweler paragraff (3)), neu

(b) cynorthwyydd gweithrediaeth.";

(c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Os yw dau neu ragor o aelodau awdurdod lleol yn cael eu penodi i'r weithrediaeth i rannu swydd—

(**1**) O.S. 2001/2283 (Cy. 172); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2006/1849 (Cy. 192), 2016/85 (Cy. 39).

(a) caiff pwyllgor safonau gynnwys mwy nag un o'r aelodau hynny, ac os yw'n gwneud hynny, gyda'i gilydd maent yn cyfrif fel un aelod gweithrediaeth at ddibenion paragraff (1)(a);

(b) caiff cyd-bwyllgor gynnwys mwy nag un o'r aelodau hynny o awdurdod lleol cyfansoddol, ac os yw'n gwneud hynny, gyda'i gilydd mae'r aelodau hynny'n cyfrif fel un aelod gweithrediaeth at ddibenion paragraff (2)(a)."

(6) Yn rheoliad 23, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor safonau yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, mae gan yr aelodau hynny un bleidlais rhyngddynt at ddibenion paragraff (2)."

(7) Yn rheoliad 24, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor safonau yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, nid yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o'r pwyllgor at ddibenion paragraffau (1) a (2)."

**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002**

**4.** Yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002(**2**), yn erthygl 41(6), ar ôl "adran 11(8)" mewnosoder "neu 11(8ZA)".

(**2**) O.S. 2002/808 (Cy. 89).